**Tasg 1**

# Cymru v Llundain

**Creu cyflwyniad:**
Mewn grŵp, cyflwynwch y wybodaeth mewn cyflwyniad PowerPoint, ond er mwyn ei gyflwyno'n ddifyr, archwiliwch y wybodaeth trwy geisio ateb ambell gwestiwn tebyg i'r rhain:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng uchder y tyrau?
- Allwch chi ddweud pa mor uchel yw'r Shard o'i gymharu â thyrau eraill yn y byd?
- Pe baech chi'n ceisio ail-greu taldra tŵr Meridian gyda disgyblion yn sefyll ar ysgwyddau ei gilydd, sawl disgybl fyddai angen? (Cofiwch: peidiwch â gwneud hyn, rhag ofn … !!)
- Amserwch un ohonoch yn eistedd ar ddeg sedd mewn rhes a defnyddiwch y wybodaeth er mwyn amcangyfrif faint o amser y byddai'n cymryd i chi eistedd ym mhob sedd yn Stadiwm y Principality.
- Efallai bod 90,000 o seddi yn Wembley, ond sawl gris sydd yno?
- Rhowch gwis i'ch cyd-ddisgyblion i geisio dyfalu ble yng Nghymru mae'r deg prifysgol.
- Pe baech chi'n teithio ar gyflymder o 60 km yr awr, faint o amser byddai'n cymryd i chi fynd trwy Dwnnel Ffestiniog a Thwnnel y Northen Line?
- Fyddai pawb yn y dosbarth yn cael dod i wylio ffilm yng Ngorseinon tybed?

Allwch chi feddwl am gwestiynau eraill y gallwch chi eu hateb er mwyn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd wahanol?